

CERAMIC SERIES

JOHN GIBSON



In July this year, John Gibson, Potter, left dear Old Blighty, and set out for the island of Bornholm, just off the coast of Denmark. He and his family will spend three months experiencing the Danish way of life, making pots, partying on the beach, and wondering if they will make the move permanent.

It is a startling departure for one so enmeshed in 'the end of the pier show', the Republic of South Yorkshire, and, so I thought, roots firmly planted in the urban environment of Sheffield. Occasional forays have been known, mainly to London and Greece, but the exciting, and long awaited arrival of a son in 1989 has given John new perspectives and concerns — open spaces, fresh air, worries about the environment and a future that need not be dependent on the city experience.


John was born in Sheffield in 1952, and after drifting through a variety of employment, discovered pottery at evening classes. As with so many, he gradually became obsessed by clay, and from 1975-79, he abandoned the factory floor and took a Foundation Course, followed by three years in Studio Ceramics at Chesterfield College of Art.

Many of John's present working methods and attitudes were formulated in these early years, whilst investigating the possibilities of saltglaze. Good craftsmanship, attention to form, and an interest in decoration, encouraged John's search for pots with a rich visual surface texture.

Many of the motifs John employed at this time ranged from textile designs of traditional Japanese kimonos, pots from the Oribe kilns in the Momoyama Period, and from the potters of the Nabeshima Clan, to mass produced Victorian Pottery, found in the junk and antique shops of Sheffield. I remember dragons featuring prominently too, and reflections of his interest in Science Fiction stories.

Whilst still students at Chesterfield, John and I began converting a derelict old coaching inn, with a cobbled courtyard, in Matlock, Derbyshire. When we finally com-

pleted our course on the Friday, we were ready to start work straight away, with the invaluable help of Judy, John's wife who looked after sales in the shop, the following Monday morning. Unfortunately, the position of the workshop in the town centre meant no saltglazing, but John's solution was to develop a range of tableware and some one-off pieces, mainly large plates and vases, using porcelain as a white background. John's experience with saltglaze was highly influential in his continued use of slips to decorate with at the green stage; and with a palette of around 10 colours, he proceeded to develop an increasingly complex and highly intricate series of layers of marks and patterns on his work.



pattern making, wasn't giving him anything anymore, and it was time for a change.

The next major influence on John's work was a commission to produce a fountain, a metre square at the base, which forms the focus for a private swimming pool in a converted barn. Working with the architect, and the client, John designed the fountain to reflect the local environment. It is an intricate piece, constructed from four panels, showing amongst other things, leaping fish, herons, dragonflies, water and floral designs, and topped by magnificent press moulded barn owls. Not only that, but the whole piece revolved over the day, so each of the panels was exposed to view. The fountain project was an important step in John's development, as it rekindled his interest in using plaster and focussed his attention on to images, rather than patterns, images that allowed him to explore his interest in natural subjects and the environment. The fountain was in situ and working in 1989, and in February of that year, John moved again, within Sheffield, to a two storey workshop in Industry Street.

Work at the new place was inaugurated by another large commission, a dinner service, but once that was finished, it was time to look up and see what next. Pattern making had stopped at the Orange Street workshop, and John felt that now was the time to tackle a more definite image, something that would engage his current concerns or that would reflect his daily life. John has always kept a record of his experiences through photography, collecting postcards and illustrations, making sketches and recording ideas. The pots began to reflect dolphins, seen in Greek Museums, blue domed churches with white painted walls. These are not scenes, but juxtapositions of elements interesting to John, and arranged at different angles. Fishing boats, sea, sun, and the 'inside' giving us a visual conundrum. Mediterranean fruits, bunches of luscious grapes are drawn directly onto the leathered pots, and fit well on his fat body shapes. There are his child's toys and Greek legends and fish intertwined into visual abstractions that leap into view as you turn the dish in your hand.

In his search for new meaning in his work, John has reached back to his formative years, when form and applied decoration reflected the saltglazing techniques so happily. Press moulded knobs, feet, handles and spouts give the work an interesting focus. The fruit forms are ideal for this, as are the shells. The majority of John's work is wheelbased, and made from Potclays 1145 stoneware. He wedges molochite into the wet clay for the handbuilt additions, to give tooth to the clay and to prevent cracking. John biscuit fires to 950°C and then applies a transparent glaze before the final firing to 1260°C. Handles and spouts are handbuilt, and rolled on carved textured plaster surfaces, so that they are patterned all the way round. The spouts are cut from a triangular slab of clay and pulled to elegant proportions along a piece of dowel, sprayed with WD40, to prevent sticking. The spout is textured and then placed on the bench to begin to softly droop in a natural curve.

John believes that the use of a blow torch is probably one of the most significant things about his work at the moment. The gently curving spout can be arrested by a quick blast and then applied to the pot — in fact the blow torch can speed up the different pro-

In 1985, John was commissioned to write a book on Pottery Decoration by A. & C. Black, which brought him into contact not only with potters worldwide, practising a huge variety of decorative techniques, but also forced him to confront his own work head on. The book was finished in 1987, and together with a move from the Courtyard in Matlock, when the lease expired, to a workshop in A. & C. Studios, Orange Street, Sheffield, John had time to reflect and consider his new position. In writing the book, John had seen an enormous amount of pots, and encountered potters who were getting far more out of their work than John felt he was doing at the time. He realized that his absorption in methods and techniques of decorating, the sgraffito, the sponge stamps, the pouring and masking, the brush work and slip trailing to achieve an energy and depth in the

cesses to such an extent, that a pot can be taken through all its stages in a day. No more drumming of the fingers while slips and attachments dry and stiffen. The flow of a pot's construction can be achieved in one steady progressive session.

John is also using stamps again, something he hasn't done since the 70's. Foliage, berries, crustacea, creep over the surface, pushed straight into the clay around the handles and spouts, giving a depth and visual texture that he was always chasing in the days of pattern making.

John's pots have always been well crafted, with meticulous attention to detail, and a crispness, and cleanliness of line. He often bemoans the fact that, to many potters today, ideas seem more important than craftsmanship. Form is becoming increasingly important to John, and the imagery, whilst fascinating him in its own right, is more and more dictated by the shape of the pot. In the move to Denmark, form is going to be of paramount importance. He intends to use local materials, an opportunity previously not available to him in the city environment. One stoneware clay, available on the island, which fires to 1250°C. One glaze using ash from the local fish smoking houses. The pots will be reduction fired in a gas kiln.

John has always admired 'real' potters like Mike Dodd, who utilise the local environment, and use indigenous materials to create their pots. He hopes that in Denmark, he will have the opportunity to concentrate wholly on form, vigorously thrown, and with possibly little decoration. He wants to go back to the beginning — small bowls, mugs, jugs and so on. There won't be a lot of time to experiment, as all selling on the island takes place in August. He won't even be doing any work with slips. He's just taking his throwing tools . . . well, he might take his brushes, it all depends on what's selling . . .

*Josie Walter,
September 1990*



Photographs by P. A. Davy

GYFRES GERAMIC

JOHN GIBSON



Ym mis Gorffennaf eleni, gadawodd John Gibson, Crochenydd, ei famwlad annwyl ac anelu am ynys Bornholm sy'n gorwedd yn agos i arfordir Denmarc. Bydd ef a'i deulu yn treulio tri mis yn cael profiad o ffordd y Daniaid o fyw, yn llunio potiau, yn mwynhau partition ar y traeth, ac yn ystyried a ydynt yn debyg o setlo i lawr i fyw yno.


Mae hyn yn ddatblygiad syfrdanol yn mywyd un sy'n gymaint rhan o'r 'sioe ar ben draw'r pier', Gweriniaeth De Swydd Efrog, ac fel roeddwn i'n tybio, un sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn amgylchfyd trefol Sheffield. Mae'n wir y gwnaed ambell i gyrch achlysurol, i Lundain a Gwlad Groeg yn fwyafr arbennig, ond mae cyffro genedigaeth hir ddisgwylidig ei fab ym 1989 wedi rhoi golwg newydd ar bethau i John ac wedi peri iddi ymboeni am bethau gwahanol - mannau agored, awyr iach, pryderon ynglŷn â'r amgylchedd a dyfodol nad oes yn rhaid iddo fod yn ddibynnol ar y profiad dinesig.

Cafodd John ei eni yn Sheffield ym 1952, ac ar ôl rhoi cynnig ar amryfal swyddi, daeth yn ymwybodol o grochenwaith drwy fynychu dosbarthiadau nos. Fel yn achos llawer un arall, aeth clai yn raddol â'i fryd yn gyfangwbl, a rhwng 1975 a 1979, trodd ei gefn ar y ffatri a dilyn Cwrs Sylfaen ac yna dair blynedd yn astudio Crochenwaith Stiwdio yng Ngholeg Celf Chesterfield.

Ffurfiwyd llawer o ddulliau gweithio ac o agweddau John yn ystod y blynnyddoedd cynnar hyn, pan oedd yn archwilio posibiliadau gwydredd halen. Anogwyd John gan grefftwaith dda, sylw i ffurf a diddordeb mewn addurn, i geisio creu potiau gydag ansawdd arwyneb weledol gyfoethog.

Roedd llawer o'r motiffau a ddefnyddid gan John ar y pryd yn amrywio o gynllun defnyddiau kimonos traddodiadol Siapan, potiau o odynau Oribe yn y Cyfnod Momoyama, a chrochenyddio Llwyth Nabeshima, hyd grochenwaith wedi ei fasgynhyrchu yn oes Fictoria y byddai'n dod o hyd iddo mewn siopau ail-law a siopau hen bethau yn Sheffield. Gallaf gofio dreigiau yn cael cryn amligrwydd hefyd, a phethau oedd yn adlewyrchu ei ddiddordeb mewn Ffuglen Wyddonol.

Tra oedden ni'n dal i fod yn fyfyrwyr yn Chesterfield, dechreuodd John a minnau drawsnewid hen dafarn o oes y goets fawr gydag iard o gerrig mân, oedd wedi mynd â'i phen iddi, yn Matlock yn Swydd Derby. Daeth ein cwrs i ben ar ddydd Gwener ac rodden ni'n barod i ddechrau gweithio'n syth y bore Llun canlynol, gyda chymorth amhrisiadwy Judy, gwraig John, a oedd yn gyfrifol am redeg y siop. Yn antffodus, oherwydd bod y gweithdy wedi ei leoli ynghanol y dref, nid oedd yn bosibl defnyddio gwydredd halen, ond ateb John oedd datblygu ystod o lestri bwyd a rhai eitemau unigol, platiau a ffiolau mawr yn fwyaf arbennig, gan ddefnyddio porslen yn gefndir gwyn. Roedd profiad John gyda gwydredd halen yn hynod o ddyylanwadol ar ei ddefnydd o slipiau i addurno'r potiau cyn eu tanio, a chyda phalet o tua deg lliw, dechreuodd ddatblygu cyfres gynyddol gymhleth a hynod o astrus o haenau o farciau a phatrymau ar ei waith.



Ym 1985, comisiynwyd John gan A & C Blacks i ysgrifennu llyfr ar Addurno Crochenwaith, a daeth y gwaith nid yn unig ag ef i gysylltiad â chrochenyddion ymhob rhan o'r byd a oedd yn ymarfer amrywiaeth eang o dechnegau addurno, ond fe'i gorfodwyd i gymryd golwg gwbl onest ar ei waith ei hun. Cwblhawyd y llyfr ym 1987, a chan i hynny ddigwydd ar yr amser pan oedd yn symud o'r gweithdy ym Matlock, am fod y les ar ben, i weithdy yn Stiwdios A & C, yn Orange Street, Sheffield, cafodd John gyfle i adlewyrchu ac i ystyried ei sefyllfa newydd. Wrth ysgrifennu'r llyfr roedd John wedi gweld nifer anferth o botiau, ac wedi dod ar draws crochenyddion a oedd yn cael llawer iawn mwy allan o'u gwaith nag y teimlai John ei fod ef yn ei gael o'i waith ei hun ar y pryd. Sylweddolodd nad oedd ei ymroddiad ef i ddulliau a thechnegau addurno, y sgraffito, y stampiau sbwng, yr arllwys a'r masgio, y gwaith brws a'r llinellu slip er mwyn sicrhau ynni a dyfnder yng ngweuthuriad patrwm, yn golygu dim iddo bellach a'i bod yn bryd iddo newid.

Y dylanwad pwysig nesaf ar waith John oedd comisiwn i gynhyrchu ffownten, medr svar yn ei gwaelod, i fod yn ganolbwyt pwllo nofio preifat mewn sgubor a oedd wedi ei haddasu i'r pwrrpas. Mewn cydweithrediad â'r pensaer a'r cwsmer, cynlluniodd John y ffownten i adlewyrchu'r amgylchfyd lleol, ac mae'r gwaith yn un cymhleth, yn cynnwys pedwar panel sy'n dangos ymhliith pethau eraill bysgod yn llamu, crychydion, gweision y neidr, patrymau dŵr a blodau, ac i goroni'r cyfan dylluanod gwyn godidog wedi eu gwasg fowldio. Ac ar ben hynny mae'r cwbl yn cylchdroi yn ystod y dydd nes bod pob un o'r paneli yn dod i'r golwg yn ei dro. Roedd y prosiect hwn yn gam pwysig yn natblygiad John, gan iddo aildanio ei ddiddordeb mewn defnyddio plastr a chanolbwytio ei sylw ar luniau yn hyrach na phatrymau, lluniau a oedd yn rhoi cyfle iddo archwilio ei ddiddordeb mewn gwrthrychau naturiol a'r amgylchfyd. Erbyn 1989 roedd y ffownten wedi ei gosod yn ei lle ac yn gweithio, ac yn Chwefror y flwyddyn honno symudodd John unwaith eto i weithdy dau lawr yn Industry Street.

Dechreuwyd ar y gwaith yn y lle newydd gyda chomisiwn mawr arall, llestri cinio, ond unwaith roedd hwnnw wedi ei gwblhau, roedd hi'n bryd edrych o gwmpas i weld beth fyddai'n dod nesaf. Roedd John wedi rhoi'r gorau i lunio patrymau yn ystod ei gyfnod yn y gweithdy yn Orange Street, a theimlai mai nawr oedd yr amser i ymgymryd â delwedd fwy pendant, rhywbeth a fyddai'n ymwneud â'i bryderon a'i ddiddordebau ac yn adlewyrchu ei fywyd beunyddiol. Mae John bob amser wedi cofnodi ei brofiadau drwy gyfrwng ffotograffau, drwy gasglu cardiau post a darluniau, drwy dynnu brasluniau a chofnodi syniadau. Dechreuodd y potiau adlewyrchu dolffinod, a welwyd mewn amgueddfeydd Groegaidd, ac eglwysi gyda thoeau gleision uchel a muriau wedi eu lliwio'n wyn. Nid golygfeydd yw'r rhain, ond cyfosodiad o elfennau sydd o ddiddordeb i John wedi eu trefnu ar onglau gwahanol. Cychod pysgota, môr, haul, a'r 'ochr fewnol' sy'n darparu pos gweledol ar ein cyfer. Caiff lluniau ffrwythau'r Môr Canoldir, sypiau o rawnwin pêr, eu llunio'n uniongyrchol ar y potiau pan maent wedi cyraedd caledwch lledr, ac maent yn gweddu'n dda i gyrrf llydan ei ffuriau. Mae teganau ei blentyn, chwedlau Groegaidd a physgod wedi eu cydblethu'n haniaethau gweledol sy'n llamu i'r golwg wrth i chi droi'r llestr yn eich llaw.

Wrth iddo chwilio am ystyr newydd yn ei waith, mae John wedi ymgyrraedd yn ôl i'w flynyddoedd cynnar fel crochenydd, pan oedd ffurf ac addurn gosod yn adlewyrchu'r technegau gwydredd halen mor hapus. Mae cnapiau, traed, dolenni a phigau wedi eu gwasg fowldio yn creu canolbwyt diddorol i'r gwaith. Mae ffuriau'r ffrwythau yn ogystal â'r cregyn yn ddelfrydol i'r pwrrpas hwn. Mae'r rhan fwyaf o waith John wedi ei lunio ar y droell o Potclays 1145 crochenwaith caled. Bydd yn cymysgu molochit â'r clai gwlyb ar gyfer yr ychwanegiadau a lunir â llaw, er mwyn rhoi mwy o gryfder iddo ac i'w rwystro rhag cracio. Bydd y tanio cychwynnol yn cyraedd 950C ac yna bydd John yn gosod gwydredd tryloyw ar y gwaith cyn y tanio terfynol ar wres o 1260C. Llunir dolenni a phigau

â llaw, a chânt eu rholio ar arwynebau plastr wedi eu cerfio er mwyn creu patrwm drostynt i gyd. Torrir y pigau o dafell o glai ar ffurf triongl a'u tynnu'n gymesur gain ar hyd tamaid o hoelbren wedi ei chwistrellu â WD40 i rwystro'r clai rhag glyn. Rhoir sylw i arwyneb y pigau ac yna eu gosod ar fainc a gadael iddynt ddechrau gwyro'n raddol nes ffurio crymmedd naturiol.


Cred John mai ei ddefnydd o chwythlamp o bosibl yw un o'r pethau mwyaf arwyddocaol ynglŷn â'i waith ar hyn o bryd. Gellir atal gwyriad graddol pig gyda chwythad sydyn ac yna'i osod ar y pot - yn wir gall y chwythlamp gyflymu'r amrywiol brosesau i'r fath raddau fel y gall pot fynd drwy holl gamau ei ddatblygiad mewn diwrnod. Bellach ni raid meithrin amynedd tra'n aros i slipiau ac ychwanegiadau sychu a chaledu. Gellir sicrhau dilyniant yn y gwaith o lunio pot mewn un sesiwn gyson ddi-dor.

Mae John hefyd yn defnyddio stampiau unwaith yn rhagor, rhywbeth na wnaeth ers y saithdegau. Mae dail, aeron a chreaduriaid cegin yn ymddangos ar arwynebau, wedi eu stampio'n syth i'r clai o gwmpas dolenni a phigau, gan roi i'r gwaith y dyfnder a'r ansawdd weledol yr oedd bob amser yn ei geisio yn y dyddiau pan fyddai'n llunio patrymau.

Bu potiau John bob amser yn rhai crefftus, yn lân a diwastraff eu llinell, a chyda sylw manwl yn cael ei roi i fanylion. Mae'n aml yn cwyno oherwydd yffaith fod llawer o crochenyddion heddiw yn ystyried syniadau yn fwy pwysig na chrefftwaith. Yn achos John mae ffurf yn dod yn gynyddol bwysig, ac mae'r delweddu, er eu bod yn ei ddiddori ynddynt eu hunain, yn cael eu pennu'n fwyfwy gan ffurf y llestr. Wrth iddo symud i Denmarc, mae ffurf am fod o'r pwysigrwydd mwyaf. Ei fwriad yw defnyddio defnyddiau lleol, cyfle nad oedd ar gael iddo cyn hyn yn ei amgylchfyd dinesig. Ceir clai crochenwaith caled ar yr ynsy sy'n tanio ar dymheredd o 1250C, a gwydredd sy'n defnyddio lludw o'r gwaith cochi pysgod lleol. Bydd y potiau yn cael eu tanio drwy rydwythiad mewn odyn nwy.

Mae John bob amser wedi edmygu crochenyddion 'go iawn' megis Mike Dodd, sy'n gwneud defnydd o'r amgylchfyd lleol, ac yn defnyddio adnoddau lleol i greu eu potiau. Yn Denmarc mae'n gobeithio cael y cyfle i ganolbwytio'n gyfangwbl ar ffuriau, wedi eu llunio'n egniöl ar y droell, a chyda ychydig addurn o bosibl. Mae arno eisiau mynd yn ôl i'r cychwyn - bowlenni bychain, mygiau, jygiau ac ati. Ni fydd llawer o amser i arbrofi, gan fod y cwbl o'r gwerthu ar yr ynsy yn digwydd yn Awst. Ni fydd hyd yn oed yn gwneud unrhyw waith gyda slipiau. Y cwbl y mae'n mynd i'w ganlyn yw ei offer ar gyfer gweithio ar y droell...wel, a'i frwsys o bosibl, mae'r cwbl yn dibynnu ar beth sy'n gwerthu...

*Josie Walter
Awst 1990*



Fotograffau gan P. A. Davy